

# y dinesydd

Mehefin 2003

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH

281

## NEFAR IN IWROP!

Mae'n hysbys bellach mai Lerpwl ac nid Caerdydd fydd dinas diwylliant Ewrop 2008. Er i Gaerdydd wario miliynau ar yr ymgyrch a chyrraedd y rhestr fer, aflwyddiannus fu'r cais.

Gan mai dinas gymharol fechan yw Caerdydd, un o'r lleiaf erioed i wneud cais o'r fath, roedd y cais yn un uchelgeisiol iawn yn adlewyrchu dyhead y Cyngor i ddrychafu Caerdydd i fod yn un o ddinasoedd cydnabyddedig Ewrop.

Yn ôl y darlledwr adnabyddus a dirprwy gadeirydd yr ymgyrch, Vincent Kane, doedd cynnig Caerdydd ddim 'yn ymwneud â lle rydym ar hyn o bryd a beth rydym yn ei wneud nawr, ond yn ymwneud â lle rydym am fod.'

Hyn, efallai, yn y bôn oedd un o ddiffygion y cais. Cais wedi ei greu yn bennaf, ar addewidion oedd un Caerdydd.

Beth oedd gennym i'w gynnig? Ar hyn o bryd does gennym ddim tŷ opera, nifer fechan o hen theatrau, dim canolfan sy'n olrhain hanes a thwf Caerdydd ac yn dilyn tranc y ganolfan gelf yn yr Ais, dim oriel gelf arwyddocaol.

Conglfaen cais Caerdydd felly oedd ei statws fel prifddinas, a pwysleisiwyd mai cais ar ran Cymru oedd hwn ac nid Caerdydd yn unig. Mabwysiadwyd y teitl 'Caerdydd Prifddinas Diwylliant Ewrop' i bwysleisio'r ffaith. Yn ôl cadeirydd yr ymgyrch, Arglwydd Faer y

Ddinas, Russell Goodway 'Mae hwn yn gynnig sy'n adlewyrchu diwylliant cyfoethog ac amrywiol Cymru gyfan'.

Roedd hyn yn sicrhau, nid yn unig cefnogaeth mudiadau a sefydliadau cenedlaethol ond yn caniatáu i atyniadau cenedlaethol fel stadiwm y mileniwm, yr Amgueddfa a'r Eisteddfod Genedlaethol gryfhau cais Caerdydd.

Gellir ystyried yr or-ddibyniaeth hon ar statws Caerdydd fel prifddinas fel gwendid arall yn hytrach na chryfder.

Mae yna aniddigrwydd cyffredinol ynglyn a llwyddiant Caerdydd i ddenu projectau mawr, costus ar draul ardaloedd eraill. Dyma enghraifft arall o drigolion Cymru gyfan yn mynd yn ddwfn i'w pocedi unwaith eto i ariannu menter oedd i'w chanoli yng Nghaerdydd.

Pwy oedd yn debygol o elwa? Mae'n naturiol i drigolion y brifddinas deimlo'n siomedig na lwyddodd y cais ond a oedd yna gefnogaeth gwirioneddol y tu allan i furiau'r gaer? Cawn weld a fydd y cyhoeddusrwydd anferth a gafodd Caerdydd yn gymorth i ardaloedd eraill o Gymru yn y blynyddoedd i ddod, neu a welwn ardaloedd fel Y Rhyl, Y Bala, Llandudno a hyd yn oed Caerdydd yn elwa mwy o lwyddiant Lerpwl?



### CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

Cyfarfod cyhoeddus sy'n agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau.

**Nos Iau, 10 Gorffennaf 2003 am 7.30 p.m.  
yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.**

Croeso cynnes i bawb. Dewch i gwyno! Dewch i gefnogi!

### Pencampwyr Hoci Cymru 2003

Llongyfarchiadau arbennig i dîm hoci Ysgol y Wern. Ar ôl ennill grŵp Caerdydd B aethant ymlaen wedyn ym mis Ebrill i fod yn fuddugwyr Rhanbarth Caerdydd a Phontypridd. Cynhaliwyd y rownd derfynol yn y Drenewydd. Chwaraeodd yr ysgol yn erbyn pump ysgol arall. Roedd safon y rownd derfynol yn arbennig o uchel ond llwyddodd y Wern i ennill pob gêm ar y diwrnod a'i coronni yn Bencampwyr Hoci Cymru 2003.



(rhes gefn o'r chwith) Jacob Eynon, Ffion Llewelyn, Gwen Davies, Rhys Atkins, Jeni-Mared Thomas ac Emma Gowman.  
(rhes flaen) Rhys Davies, Thomas Harries, Rhys Gowman, Oliver Rendle, Harri Jones a Matthew Taylor. Mae Morgan Harries yn absennol o'r llun.

# Y Dinesydd

Mehefin, Rhif 281.

ISSN 1362-7546

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.  
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,  
Ffôn: 029 2056 6046, e-bost: lorraine@pioneerprinting.co.uk  
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**  
Cen Williams

**Golygydd y rhifyn nesaf:**  
Alun a Mair Treharne

**NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.**

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst 2003 erbyn 24 Mehefin at:**

Alun a Mair Treharne, 91 Windermere Ave., Parc y Rhath,  
Caerdydd CF23 5PS  
(Ffôn: 029-2075-4436; e-bost: mairgtreharne@hotmail.com)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd  
CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754;  
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr  
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;  
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**  
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas. Mae ein hysbysebwr yn tystio pam mor effeithiol a rhesymol yw hysbysebu yn *Y Dinesydd*. Ar ben hynny, mae pob hysbyseb yn cyfrannu at gynnal *Y Dinesydd*, gan fod incwm hysbysebion yn hanfodol i barhad y papur.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freemove.co.uk).

## DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopïau o'r *Dinesydd*, neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthuwr, cysylltwch â ROBIN JONES, 1 Kings Rd, Radur, Caerdydd (Ffôn: 029-2084-2929).

Os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btpenworld.com).

## CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*, Dr E. WYN JAMES, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btpenworld.com).

**Ble mae'r croesair? - Dim cliw!!**

## Cylch Meithrin Llaneirwg ANGEN ARWEINYDD

**Pedwar Bore yr Wythnos**

Mae Cylch Meithrin Llaneirwg yn chwilio am Arweinydd i arwain Cylch o blant cynradd mewn gweithgareddau addysgol a hwylus yn y Gymraeg.

Angen NVQ Lefel 3 neu debyg, a phrofiad.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Jayne Williams ar 029 2077 8667

Dyddiad cau :: 21 Mehefin 2003

**Ydy Alcohol yn costio mwy nag arian i ti?**

**Paid digalonni! Mae 'na ateb!**



## Alcoholigion Anhysbys

**Ffonia 0845 7697555 a gofyn am gael sgwrs yn Gymraeg gyda rhywun sy'n deall.**

## Golygydd 'Y Drafod' yn marw

Wedi cystudd hir bu frawd Irma Hughes de Jones Golygydd 'Y Drafod' Papur bro y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia ar 18 Ebrill. Cynhaliwyd ei hangladd yn y Gaiman. Roedd hi'n ferch i Arthur Hughes sef mab y nofelydd Gwyneth Vaughan ac roedd yn fardd a llenor amlwg ac yn aelod o Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghymru a'r orsedd ym Mhatagonia.



**LLONGYFARCHIADAU i holl gystadleuwyr yr ardal a fu'n fuddigol yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Tybed beth sydd yn y dŵr yn ardal côd post CF1? Beth am gael dipyn o'ch hanes?**

## CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN



Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm  
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com



## Howard Goodfellow

Magwyd Howard yn ardwl y glo caled yng nghwm Gwendraeth Fawr, yn fab i lowr, a'i dad yn gwarchod buddiannau a diogelwch ei gyd-weithwyr yng nglofa y Tymbl. Cafodd ei addysg gynnar yn yr ysgol leol a'i addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin. Oddi yno aeth i'r Coleg Normal ym Mangor i gymhwyso fel athro. Parhaodd ym myd addysg



weddill ei oes. Bu am gyfnod yn athro yn Llundain, cyn dychwelyd i swyddi cyfatebol yng Nghaerdydd a'r cylch. Ymddeolodd fel prifathro Ysgol Gymraeg Penygarth rhyw ddeng mlynedd yn ôl, wedi gyrfa lewyrchus, yn fawr ei barch gan ei gyd-athrawon, y disgyblion a'r rhieni. Dyna'r glo mân, yr esgym sychion fel pe tae, ond yn gymysg a'r cyfan mae ronynnau o aur sy'n harddu'r pictiwr llawn.

Fel ei dad o'i flaen bu'n gwarchod a diogelu treftadaeth ei bobl y parthau hyn. Rhannodd ei arbenigrwydd a'i ddawn gyda mudiad yr Urdd ac ar rhyw 'haf hirfelyn' yng Ngwersyll Llangrannog cyfarfu â Glunis, a fu'n gymar oes iddo. Cafodd ei freintio gyda dwy o ferched, Rhian a Meryl. Buont hwythau a'u teuluoedd yn gysur mawr iddo dros y blynyddoedd. Gweithiodd yn ddiwyd gyda'r Urdd ar hyd ei fywyd. Roedd yn aelod o bwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2002 ac fe'i mynychodd ac yntau mewn afiechyd dwys.

Roedd yn gerddor medrus ac yn meddu ar lais tenor cyfoethog. Rhannodd ei ddawn gyda Chôr Polyphonic ac Eglwys Minny Street. Da y cofiaf am ei gyfraniad i ganiadaeth y cysegr yn ei eglwys a'i arweiniad mewn cymanfaoedd canu led-led Cymru.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn chwaraeon. Rygbi oedd ei gariad cyntaf fel y gellid disgwyl oddiwrth un a'i wreiddiau'n ddwfn yn Shir Gâr.

Tra yn Llundain bu'n chwarae i'r Cymry yn y ddinas honno. Yma yng Nghaerdydd bu'n gwasanaethu Undeb Rygbi Cymru fel stiward yn y gemau rhyngwladol ym Mharc yr Arfau. Hyfforddwyd to ar ôl to o'i ddisgyblion yn sgiliau sylfaenol y gêm. Roedd ei frwdfrydedd heintus a'i bresenoldeb mewn gemau yn werthfawr, wrth iddo annog a chymell y bechgyn i fynd am y dalar mewn steil.

Bellach aeth yntau am y dalar a chroesi y ffin gwsg. Daeth cannoedd i'w hebrwng adre ar ddydd ei arwyl, a bydd y cof amdano yn harddu treigl blynyddoedd y rhai a'i hadnabu. Garwyn Davies

### Colled enfawr i Undeb Rygbi Cymru

Wedi cystudd hir bu farw Vernon Pugh gynt o ardal Rhydaman ar 24 Ebrill yn 57 oed. Bu ei angladd yn Eglwys San Ioan y Bedyddiwr yng Nghaerdydd cyn ei gladdu ym mynwent Bryndrain, Llanisien. Cydymdeimlir â'i weddw Dorinda a'i holl deulu yn eu colled.

### Plac i gofio Jack

Bwriedir gosod plac yn Chapel Row, Merthyr Tudful i gofio am y nofelydd Jack Jones, brodor o'r dre a fu'n byw yn Rhiwbina am flynyddoedd. Bu ei nofelau megis *River out of Eden* a *Off to Philadelphia in the Morning* yn boblogaidd iawn.

## Penri A. Treharne

Ar 12 Ebrill eleni bu farw Penri Treharne y Barri yn 80 mlwydd oed. Am dros hanner canrif ni fu arbed ar ei ymroddiad o blaid y Gymraeg a'i gwerthoedd. Er mai ym Mro Morgannwg yr oedd yn athro'r Gymraeg - yn gyntaf yn Ysgol Tregatwg cyn dod yn bennaeth adran y Gymraeg yn Ysgol Gyfun y Bechgyn y Barri ym 1966 - roedd ei ddoniau'n hysbys ledled Cymru.



Daethai'n ysgrifennydd cynorthwyol i Gwyn M. Daniel a oedd yn arwain UCAC o'i bencadlys yn Nhŷ'r Cymry, Caerdydd, ym 1952. Gyda'r llwyredd nodweddiadol ohono, bu Penri'n rhan annatod o dwf yr undeb yn ystod y deunaw mlynedd nesaf. Yn y trigain mlynedd o hanes UCAC Penri yw'r unig un i fod ar adegau yn ysgrifennydd cyffredinol, trysorydd cenedlaethol a llywydd cenedlaethol ei undeb - 'cydwybod y proffesiwn ar y Gymraeg yn yr ysgolion', fel y tybiai rhai.

Roedd Penri hefyd yn gynrychiolydd ar amryfal gyrrff cenedlaethol fel Pwyllgor Darlledu i Ysgolion y BBC a phanelau hyrwyddo'r Gymraeg a'i llenyddiaeth. Unwaith, mewn cyfarfod dethol, a'r cyfarwyddwyr addysg yn cyfarch ei gilydd fel 'Stevens Glamorgan', 'Howells Carmarthen', 'Williams Flint', ymateb Penri oedd 'Treharne Cymru'! I'w gydundebwyr ac eraill a fu wrth ei draed, roedd ei ateb yn burion.

Cryfhau ei lafur beunyddiol yn y Barri wnaei ei bwyllgora cenedlaethol. Ac ni chaniataodd i alwadau Cymru arno ei gadw rhag gweithio yn lleol. Bu'n ddiagon yn y Tabernacl, Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, am dros hanner canrif, yn athro Ysgol Sul, ac ef oedd ysgrifennydd yr eglwys dan weinidogaeth y Parch. Eifion Powell. Ac yn ogystal â'r dosbarthiadau nos Cymraeg fyrrd, Penri a ddysgodd y Gymraeg i Uchel Siryf Morgannwg, Syr Cennydd Traherne. Llafur cariad cenhedlaeth.

Cofiw'n dyner am ei briod Mary yn y Barri, am Alun a Mair a'u teulu yng Nghaerdydd, a Glenna, Adrian a Lisa yn Solihull. I.M.

### Cydymdeimlwn

- â theulu y diweddar Pegi Wood gynt o Heol y Coed, Rhiwbina a fu farw yn y Manor House Sain Hilari y Fro ar y 20 Ebrill.
- â theulu y diweddar Emrys Parry y Maesgyn a fu farw yn ei gartre ar 25 Ebrill.
- âg Aled Islwyn a'r teulu ar golli ei dad y Parch Evan Islwyn Davies. Bu farw yn ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli.
- â theulu'r diweddar Charlotte Henrietta Trott, gynt o'r Rhath a fu farw yn 91 oed.
- â Ceirios Best a'r teulu ar farwolaeth ei thad, Glyn Lewis, Llwynfedw ar ôl cystudd byr yn Ysbyty'r Brifysgol.
- â Huw Brodie a'r teulu Rhiwbina ar farwolaeth ei wraig Benita ar ôl salwch hir. Bu'r angladd yn Swydd Efrog.
- Gareth Westacott a'i deulu ar farwolaeth ei fam, Menna Westacott yn 77 oed, yn Ysbyty Neville Hall, Y Fenni.
- Jennie Jones a'i theulu yn yr Eglwys Newydd ar farwolaeth ei gwr, John Hughes Jones yn Ysbyty'r Brifysgol ar yr 17 Mai.
- Gwilym ap Robert ar golli ei wraig, Sylvia Beryl, yn Ysbyty Felindre. Cynhaliwyd yr angladd ym Minny Street ac yna yn Amlosgfa Bryndrain.

## Llongyfarchiadau

- i David a Nia Enticknap yn Hong Kong ar enedigaeth eu mab Charles Austen Edward ar Ebrill Sed. Wyr cyntaf i Elwyn a Mair Tudno Jones, y Bontfaen, a nai i Ceri Tudno Flay a Mali Tudno Jones.

- i Geraint a Miriam Tilsley, Glanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd ar enedigaeth eu cyntaf anedig Iestyn Camwy yn Ysbyty Llandochau ar 4 Mai. Daw Geraint o ardal Wrecsam a Miriam o'r Gaiman yn y Wladfa.

- i Richard a Rachel James, Login, Sir Gaerfyrddin ar enedigaeth eu cyntaf anedig, Ceri John, yn Ysbyty Glangwili, wyr cyntaf i Peter a Marian Garside, Rhiwbeina a nai i Paul Garside, Ystum Taf.

- i Sioned Angharad Wyn o Ysgol Gyfun Plasmawr, ar ennill ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth.

## 'Tudur is-lywydd Huw!'

Llongyfarchiadau i Huw Tudur ar gael ei ethol yn is-lywydd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru. Mae Huw yn dysgu yn Ysgol Santes Tudful, Merthyr.

## Ymdeoliad hapus, bach

Arweiniodd Clifford Bunford Côr Bach Caerdydd am y tro olaf yn eu cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 10 Mai pan berfformiwyd St John's Passion. Clifford Bunford sefydlodd y côr a bu'n ei arwain am 41 o flynyddoedd. Pob dymuniad da iddo.

## Côr Hamdden Caerdydd

Cafwyd noson i'w chofio ar y 19 Mai pan ddaeth Côr Hamdden Caerdydd i gadw cyngerdd yn Rhiwbina ar wahoddiad Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Roedd Capel Bethel yn llawn a channwyd amrywiaeth o ddarnau dan arweiniad Eilonwy Jones yn ogystal ag adroddiadau a deuawd gan aelodau o'r côr. Mae'r côr yn bwriadu cystadlu yn Eisteddfod Meifod ar ddechrau Awst a dymunnir yn dda iddynt.


## Rhodd hael i'r Dinesydd

Yn ddiweddar cafwyd rhodd hael i gronfa'r Dinesydd gan Lyn Osborne, Ystum Taf, er cof am ei mam Jane Griffith, Nant Peris oedd yn byw yn 'Y Fron', Heol Caerffili. Dymunodd pob bendith a llwyddiant i'r Dinesydd a rydym ni fel pwyllgor yn ddiolchgar iddi am ei chefnogaeth ymarferol i'r papur.

**Am losgi'r gwair yn Sain Ffagan,  
rwy'n eich bêlio chi.**



## Busnes yn Blaguro



Beth mae cyfarwyddwr celf a *radiographer* yn ei wneud i newid gyrfa? Wel, agor siop flodau yn Grangetown siwr iawn!

Agorodd Angharad Elidir a Marie Glyn Jones siop flodau o'r enw 'Bloda' yn Stryd Paget, Grangetown.

Bu Angharad yn gweithio fel cyfarwyddwr celf am bum mlynedd a Marie fel *radiographer* yn Llundain.

Ar ôl rhoi genedigaeth i'w mab, roedd Angharad yn awyddus i newid cyfeiriad. Dilynodd y ddwy gyrsiau mewn ysgolion blodau yn Llundain, a phenderfynu sefydlu busnes gwerthu blodau yng Nghaerdydd.

Dywedodd Angharad Elidir, 'Mae yna fwy o ddewis o flodau rwan nag erioed, a'n bwriad yw i ddod a rhain ar gael i'r cyhoedd.'

Mae'r siop yn cynnig blodau ar gyfer pob achlysur - i'r cartref, ar gyfer diwrnod arbennig ac hefyd ar gyfer busnesau. "Gall blodau fod yn arf pwerus yn y byd corfforaethol ac yn cyfleu'r teimlad cywir amdano chi a'ch busnes." ychwanegodd Angharad.

Cysylltwch â 'Bloda', 88 Paget Streert, Grangetown, 20394284 [www.bloda.co.uk](http://www.bloda.co.uk)

I ddatlu agoriad y siop, mae 'Bloda' yn cynnig tusw am yr ateb cywir cyntaf i'r cwestiwn hwn:

**'Pa gantores adnabyddus a ganodd am y rhosyn gwyn?'**

Gyrrwch eich atebion i [cenwilliams@aol.com](mailto:cenwilliams@aol.com) neu i 27 Llantrisant Rise, Llandaf, Caerdydd erbyn 1 Gorffennaf.

## DAU GYHOEDDIAD LLEOL...

### JOHN EMYR - BARDD Y BAE

Gydag ethol aelodau newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol fynd heibio, does yna fawr o wahaniaeth i'r gweithwyr parhaol yno - y wynebâu'n newid ond y gwaith yn para yr un peth. Un o'r rhain ydy John Emyr, Golygydd Cofnod y Trafodion. Ond gweld ei eiriau ei hun ar bapur mae John Emyr wrth i gyfrol newydd o'i gerddi *Y Bae a cherddi eraill* gael ei chyhoeddi gan Wasg Gomer. Brodor o Lanwnda, ger Caernarfon, yw John Emyr. Ar ôl dreulio cyfnod fel pennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Aberconwy ac Ysgol Friars Bangor newidiodd drywydd i faes golygu. Bellach mae wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Mae cyfrol *Y Bae a cherddi eraill* yn arbennig iawn gan ei bod yn croniclo digwyddiadau a phrofiadau pwysig ei fywyd dros nifer o flynyddoedd rhwng dau glawr.

*Y Bae a cherddi eraill* Gwasg Gomer Pris: £7.50

### TRI LLYFR DIFYR

Does dim byd gwell er mwyn denu plentyn i ddarllen na stori sy'n cynnig llond bol o chwerthin. Bonws ychwanegol yw fod hiwmor y llyfr hefyd yn apelio'n fawr at rieni, a dyna'n sicr a geir yn y storïau bychain a gyhoeddwyd gan Wasg Houdmont, Caerdydd. Mae'r tri llyfr yn y gyfres, *Wrth Draed Tad Dafydd*, *Y Dywysoges Sach Datws* a *Cynffon Gwallt Catrin* yn gyfaddasiadau gan y Prifardd Iwan Llwyd.

Prisiau'r llyfrau yw £3.99 yr un

# Newyddion o'r Eglwysi

## BETHEL, RHIWBINA

Mi ddaeth bron i hanner cant o ddisgyblion Ysgol Melin Gruffydd i Fethel i wrando ar y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan yn egluro ei ddyletswyddau a gweithgareddau'r capel. Diolch i Mrs Gwenda Francis am drefnu'r ymweliad. Yn ystod mis Mai cawsom groesawu'r emynydd, y Parchedig Tudor Davies, Aberystwyth, i'n plith, a hefyd y Parchedig Patrick Slattery, Dolgellau, Cadeirydd Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd.

Croesawyd tri aelod newydd gan y Gweinidog, sef Mrs Olwen Davies, Mr Jim Ball a Mr Ken Osment.

Cyflwynwyd tystysgrifau a bathodynau i ddeg o blant a phobol ifanc yr eglwys am gasglu at y Genhadaeth Dramor.

Bu Côr Hamdden Caerdydd, dan arweiniad Mrs Eilonwy Jones, yn cynnal cyngerdd ym Methel, 19 Mai. Trefnwyd y cyngerdd gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbina.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mr Glyn Lewis. Bu'n dod yn gyson i Fethel ers sawl blwyddyn. Roedd y gwasanaeth angladdol yng ngofal y Gweinidog.

Cydmdeimlir â Mr Bob Davies yn ei brofedigaeth. Bu ei frawd, Emrys, farw yn Ysbyty Glan Clwyd.

## Y TABERNACL

### Trawsblannu aren

Mae hanes Delun Callow a'i mab Meuryn yn achos rhyfeddod i bawb. Ddiwedd mis Ebrill roedd yr ysbyty wedi trawsblannu aren oddi wrth y fam i'r mab. Pa rodd fwy sy'n bosibl? Cyd-ddiolchwn gyda hwy yn y ddarpariaeth, a chyd-obeithio bydd y cyfan yn estyn cyfle newydd i Meuryn fyw heb orfod troi at y peiriannau am ddeialasis cyson.

### Eisteddfod yr Urdd

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf am rai o'n cyfeillion ifanc oedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Un arall a fentrodd i gyfeiriad Parc Margam oedd Llinos Coe, gan iddi ennill cystadleuaeth unawd cerdd dant.

### Genedigaeth

Mae Gwyn a Gwenda Williams yn dathlu bod eu hwyr, John yn dad eto. Mae bod yn or-dadcu a mamgu yn dipyn o beth i ddau sy'n fythol ifanc. Llongyfarchiadau i'r teulu cyfan.

### Cyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr

Bydd Cyfarfodydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn dod i Gaerdydd dros yr wythnos Mehefin 22-26. Bydd oedfa Gymun yn y Tabernacl ar fore'r Sul, ac oedfa o fawl yn Nhonyfelin, Caerffili gyda'r hwyr.

## MINNY STREET

Braf oedd cael tystio i fedydd Jack Evan Beynon yn Oedfa Gymun Sul y Pasg. Jack yw ail blentyn Elizabeth a James (Llanisien) a brawd bach Catrin. Croeso cynnes hefyd i Ceri James, mab bach i Rachael (Garside) a Richard. Pob dymuniad da i'r teulu yn Login.

Aeth nifer o blant, ieuenctid ac oedolion Minny Street i Fethel, Penarth fore Sul y Blodau i ymuno yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr Caerdydd a'r Cylch. Yna, nôl i Minny Street yn yr hwyr, i oedfa arbennig, newyddiadurol ei naws, dan arweiniad ein Gweinidog yn ein hatgoffa o ddigwyddiadau'r Wythnos Fawr. Profiad newydd i ni fu cael cyfarfod ar nos lau Cablyd - gyda'r festri yn llawn aelodau o bob oed, cawsom flas (yn llythrennol) ar y math o swper olaf y byddai'r Iesu wedi ei fwyta gyda'i ddisgyblion.

Daeth y Gymdeithas i derfyn ei thymor gyda noson arbennig yng

nghwmni pedwar o'n cyd-aelodau. Eu cyfarwyddyd oedd sôn am lyfr, llun neu unrhyw wrthrych arall oedd yn arbennig iddynt. Yng nghwmni Seiriol Davies, Gwenda Morgan, Glyn Jones a Rhiannon Evans cawsom ein tywys drwy hanes a gwaith yr arlunydd Thomas Jones, nifer o ddigwyddiadau wedi'u crynhoi'n grefftus mewn sampler i ddynodi dyfodiad y mileniwm, cip olwg ar fywyd meistres Plas Tre-ysgawen wrth i ni fodio drwy ei llyfr cownt, a hanes a bywyd y Fonesig Charlotte Guest drwy gyfrwng ei dyddiaduron. Noson hynod o ddiddorol a fu'n glo teilwng i dymor llwyddiannus dros ben.

Roeddem yn canolbwyntio ar waith Cymorth Cristnogol yn ystod mis Mai - yr oedfa foreol gynnar ar gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol, casglu o gylch cartrefi Gerddi'r Affrig, Bore Coffi blynyddol yr Eglwys Cymraeg yn y Tabernacl, yr Âis, a Thaith Gerdded Noddedig (yn dilyn picnic) o amgylch yr Amgueddfa Werin. Cawsom glywed Neges Ewyllys Da mewn pedair iaith fore Sul, 18 Mai ac, ar drothwy gŵyl ieuenctid mwyaf Ewrop, cyfunwyd meddylfryd yr Urdd a Chymorth Cristnogol yn yr Oedfa Gylch nos Sul ddiwetha'r mis wrth i aelodau'r Waun Ddyfal, Rhath, Mynydd Bychan ag aelodau sydd yn byw ar "gyrion" y ddinas gydweithio a chyflwyno Oedfa Taize ar "Gymod a Heddwch".

## EGLWYS DEWI SANT

Bu gwasanaethau a dathliadau'r wythnos fawr a'r Pasg yn llwyddiant mawr yn yr eglwys a braf oedd cael croesawu cynifer i addoli gyda ni yn ystod y cyfnod pwysig yng nghalendr y Cristion. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Esgob Barry, Esgob Llandaf a Darpar Archesgob Cymru i'n plith ar 1 Mehefin, ar gyfer ein gwasanaeth Bedydd Esgob.

## SALEM

### Priodasau

Dymuniadau gorau i Eirian a Trystan Edwards a briododd ddiwedd Ebrill, ac i Gwerfyl a Tomos Morse, a briododd ym mis Mai.

### Bedyddiadau

Llongyfarchiadau i'r canlynol a fedyddiwyd yn ystod y misoedd diwethaf yn Salem:

Osian, mab Manon ac Ashok, Pencisely

Gwenno, merch Siw, Pontcanna

Tomos, mab Gareth ac Eleri, Llandaf

Cai, mab Derwyn a Gwennan, Pencisely

Dymunwn yn dda iddynt.

### CIS

Cawsom amser wrth ein boddau o flas gwin yn y Bae yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen nawr at ddigwyddiadau'r haf.

### Y Gadwyn (Cymdeithas yr Eglwys)

Cawsom wibdaith hynod o lwyddiannus yn ddiweddar yn dilyn llwybrau Joseph Parry, gan ymweld a'i dŷ cyn mynd ymlaen i Gyfarthfa. Cawsom drip trên wedyn - hynod o lwyddiannus a diddorol. Ffordd hynod o ddymunol i dreulio p'nawn Sadwrn!

### Clwb y Bobl Ifanc

Cawsom noson yn ymweld a sinema newydd y ddinas. Cawsom amser ffantastig, yn ôl yr arfer!

### Tim Criced

Rydym eisoes wedi bod yn ymarfer gan edrych ymlaen at y tymor newydd - felly byddwch ar eich gwyliadwraeth! Mae sawl gêm wedi ei threfnu - felly gweddiwn nawr am dywydd braf!

### Cyngerdd

Cynhaliwyd cyngerdd dan nawdd cangen Caerdydd o Gymdeithas y Beibl yn Salem ddiwedd Mai, gyda chôr Caerdydd yn ein difyr. Diolch a bawb a drefnodd y noson - roedd hi'n noson wych.



## EGLWYS Y CRWYS

Gyda'r Gwanwyn yn ei anterth a'r haf yn esblygu'n dawel, daeth gweithgareddau tymhorol yn yr Eglwys i ben. Serch hynny, bu'n gyfnod digon prysur mewn cyfeiriadau eraill a chafwyd digwyddiadau gwerthfawr yn ystod y misoedd diwethaf.

Aeth Clwb Teithio '91 ar daith hir i Sbaen dros gyfnod y Pasg. Ar y daith yma cafwyd cyfle i ymweld â dinasoedd enwog Barcelona, Madrid a Burgos. Ymserchodd pawb yn eu rhyfeddodau digymar a chafwyd cyfle ar y ffordd adre i ddiolch i Babs ag Aled am drefnu taith mor gofiadwy.

Teithio yn nes adre a wnaeth aelodau y Gymdeithas Ddiwylliannol gyda thaith undydd i gartre Shakespeare yn Stratford. Aeth rhai ar ymweliad a'r dref ar cyffiniau tra i eraill fanteisio ar y cyfle i weld llwyfanu y ddrama *Taming of the Shrew*.

Trefnwyd hefyd gyfres o deithiau cerdded fel rhan o'r dathliadau a fydd yn arwain at gofio cyfraniad Henry Richard i'r mudiad heddwch. Cafwyd dwy bererindod werthfawr iawn yn ystod misoedd Ebrill a Mai. Aeth y daith gyntaf ar ymweliad â Chapel Cefnarth a Phantycelyn, tra i'r ail fynd i ardal Cilycwm lle y cafwyd cyfle i ymweld â'r Dygoedydd, Tŷ Newydd, tŷ seiat cyntaf y diwygiad Methodistiaidd a'r Efail Fach, cartref yr emynydd Morgan Rhys. Bydd y daith nesaf, ar Ddydd Sul 22 Mehefin, yn mynd i Soar y Mynydd.



Rhai o'r pererinion gyda aelodau teulu'r Pêr Ganiedydd

Gyda thymor y gerddi yn ei anterth nid anghofiodd y Grŵp Merched drefnu noson addysgiadol ar rinweddau diwylliant y pridd. Carys Wheelan a fu'n rhannu ei harbenigrwydd gyda chynulleidfarniferus iawn. Aeth elw'r noson tuag at Gymdeithas y Clefyd Parkinson.

Nos Wener 9 Mai, lansiwyd llyfr newydd ein Gweinidog, y Parch Glyn Tudwal Jones. Teitl y llyfr yw *Ffordd Bywyd*, llawlyfr cyfleus i ieuencid a'r rhai sy'n eu hyfforddi mewn Eglwys, ysgol neu yn y cartref.

Cafwyd cyfraniad cerddorol a llafar i nodi'r achlysur. Gellir sicrhau copi yn y siopau lleol neu trwy gysylltu yn uniongyrchol â Gwasg Pantycelyn yng Nghaernarfon.

Tro Eglwys y Crwys oedd estyn gwahoddiad i'r Gymanfa Ganu flynyddol eleni, dan arweiniad y cerddor adnabyddus Euros Rhys. Yng nghyfarfod y bore cafodd y plant gyfle i ganu mawl i Dduw trwy gyfrwng detholiad o emynau allan o *'Ganeuon Ffydd'*. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y parchedig Catrin Roberts.

Yng nghyfarfod yr hwyr cafodd yr oedolion eu cyfle hwythau i gyfrannu tuag at ganiadaeth y cysegr.



## Cwis Tafarn i Ddysgwyr a Noson Gomedï - Ni Chafwyd ein Siomi!

Yn dilyn llwyddiant lansio e-chlysur, sef bas data cynhwysfawr o gyfeiriadau e-bost, cynhaliwyd Cwis Tafarn i ddysgwyr Cymraeg dan arweiniad Phyl Harries a Ieuan Rhys nos Fercher 30 Ebrill ym Mar Bsb, Caerdydd. Cofrestrwyd 11 tim ar gyfer y noson hynod lwyddiannus yma. Bu i'r dysgwyr ganmol y noson i'r entrychion, oll yn edrych ymlaen yn arw at noson gymdeithasol debyg yn fuan.

Hoffai Ceri Tudno, Swyddog Prosiect, ddiolch a llongyfarch y ddau jocar, tim Rhyngwladol am ennill y cwis, Bar Bsb am eu cefnogaeth ac i HSBC am eu nawdd blynyddol at gronfa'r dysgwyr.

Hefyd ar yr ail o Fai bu morio chwerthin yn yr un lleoliad yn y noson Gomedï. Dan arweiniad Meilyr Sion, adlonnwyd bar gorlawn o Gymry Cymraeg gan Elen Pencwm a Jen Wyn, ac i goroni'r noson Daniel Glyn. Roedd hi'n noson lwyddiannus iawn!

Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at y raffl er budd Apel S4C. Gwerthfawrogwn eich haelioni.

Am fwy o wybodaeth ynglyn â nosweithiau cymdeithasol Menter Caerdydd neu os am i Fenter Caerdydd hyrwyddo unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd trwy e-chlysur, yna cysylltwch ag Angharad Thomas ar 029 20565658 neu [angharadthomas@mentercaerdydd.org](mailto:angharadthomas@mentercaerdydd.org)



Daniel Glyn ar ei feic

## REID DDA HOGIA!

Cwblhawyd taith feicio o Gasgwent i Dŷ Ddewi gan Rhys Owen, Llwyd Owen, Jason Lugg a Tom Raybould dros benwythnos y Pasg. Codwyd swm sylweddol o £2,072 tuag at Gronfa Ymchwil yr Arennau, ac mae'r bechgyn yn awyddus iawn i ddiolch i bawb o ddarlennwyr Y Dinesydd am eu cefnogaeth.

Mae'r bechgyn hefyd yn chwilio am feic *penny farthing* er mwyn i Arwel Owen gael ymuno â nhw y tro nesaf.

## CERDDED AT ACHOS DA

Bydd taith gerdded 250 milltir o hyd dan arweiniad y cyflwynydd teledu Iolo Williams yn rhoi cychwyn ar apêl S4C 2003 er budd tai hosbis Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith. Fe fydd y daith sy'n cymryd 11 diwrnod i gwblhau, i'w gweld mewn rhaglen arbennig fydd yn cael ei darlledu ar S4C, tra bydd rhaglenni dyddiol y sianel **Pnawn Da** a **Wedi 7** a rhaglenni **Planed Plant** yn dilyn hynt a helynt y criw.

Fe fydd y daith yn cychwyn o Gonwy ar 15 Mehefin. Bydd Iolo a'i dîm yn cerdded yr holl ffordd i Fae Caerdydd ble bydd cwch yn eu cludo i Benarth ble byddant yn cerdded gweddill y ffordd i Sili. 'Rwyn edrych ymlaen at y daith. Rwy'n mwynhau sialens, ond mae ceisio cerdded Cymru gyfan draws gwlad yn dipyn o beth.' meddai Iolo.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwefan Gwylwyr S4C, trwy e bostio [hafan.gobaith@S4C.co.uk](mailto:hafan.gobaith@S4C.co.uk) neu trwy ffonio Hannah Thomas ar 02920741451

# Plasmawr

## Ymweliad â Pwll Mawr

Ar brynhawn dydd Llun, Mai 12fed, fe aeth adran Saesneg Ysgol Plasmawr ar daith i'r Pwll Mawr. Roedd y trip ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 gan ein bod yn astudio cerddi'n ymwneud â'r pyllau glo. Fe gawsom helmed a golau arni a mygydau nwy bychan. Fe aethom i lawr gyda hen gloddiwr doniol a oedd yn barod i dynnu coes a chwerthin. Ar waelod y pwll, dim ond golau o'r lampiau ar yr helmed oedd ar gael ac felly roedd rhaid symud eich pen drwy'r amser i weld lle yr oeddech yn mynd. O ganlyniad i hyn, fe wnaeth nifer ohonom daro ein pennau ar y to isel! Wrth gerdded roedd y glowr yn dweud hanesion ac yn esbonio sut oedd bywyd yn y pyllau. Rwyf yn fwy ymwybodol nawr o gefndir y cerddi rydym yn eu hastudio. Ar un adeg roedd rhaid i bawb ddiffodd eu golau ac nid oedd posib gweld eich llaw o flaen eich wyneb! Ers y daith hon, mae gen i lawer mwy o barch at y bobl a oedd yn gweithio yn y pyllau. Roedd y trip yn un bythgofiadwy ac rwyf yn gobeithio dychwelyd rhyw ddydd. Huw Griffiths (Blwyddyn 10)

## Taith i Lundain

Fe aeth nifer o ddisgyblion Blwyddyn 10 yr ysgol sy'n astudio Addysg Grefyddol i Lundain, er mwyn gweld 'The Bible: The Complete Word of God' yn Theatr y Criterion, Sgwar Leicester. Perfformiwyd ac ysgrifennwyd y ddrama gan dri actor dawnus - The Reduced Shakespeare Company. Fe wnaethon nhw lwyddo i'n tywys ni trwy'r Beibl mewn awr a chwarter yn unig.

Mae hi'n ddrama sy'n mynegi'r Beibl mewn ffordd ddifyr. Er mai dim ond tri actor oedd yn y cast roedd y cymeriadau yn amrywio o Noa i ddisgyblion Iesu ac roedd y perfformiad yn cynnwys pob hanes a phob llyfr yn y Beibl. Yn ogystal â gweu hen hanesion Beiblaidd a digwyddiadau gwleidyddol newydd i'w gilydd, llwyddwyd i gynnwys ychydig o ganeuon fan hyn a fan draw er mwyn mewnbllannu trefn llyfrau'r Testament Newydd yn ein meddyliau. Roedd hi'n sioe syml, effeithiol ac addysgiadol yn ogystal â bod yn adloniant pur. Llwyddodd yr actorion i ennyn ein diddordeb am awr a chwarter. Felly, os gewch chi gyfle i weld y perfformiad, ewch a mwynhewch!

Roedd y daith i'r ddinas yn ymddangos yn fyr iawn - ymhenn dim roeddem yng nghanol Llundain, gyda'r athrawon - Miss Margaret Davies, Mrs Siriol Wilde a Miss Siân Rogers fel tywysyddion ar ein taith! Gwelsom yr amgueddfa Victoria ac Albert, yr ysbyty lle cafodd Victoria Beckham ei phlant a'r siop enwog Harrods. Cawsom gyfle i siopa yn Covent Garden - cyfle gwyh i brofi bywyd byrlymus prif ddinas Prydain! Cawsom amser rhydd i amsugno cynnwrf y farchnad cyn mwynhau'r sioe wych ac addysgiadol.

Trueni na allwn ni

aros yn Mlwyddyn 10 am byth er mwyn mynychu'r trip Addysg Grefyddol i Lundain bob blwyddyn! Bydd y gwersi am y Beibl yn cael eu gweld mewn ffordd wahanol iawn gan y criw o hyn allan! Stephanie Dyer (Blwyddyn 10)

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys Thomas sy'n bencampwr nofio dull blaen a dull cefn Prydain o dan 16. Fe dorrodd record Prydain yn y gystadleuaeth dull cefn o dan 16 ac yntau ddim ond yn 13 mlwydd oed. Llongyfarchiadau i Erin Dafydd a ddaeth yn 3ydd a Rhys Thomas a ddaeth yn 10fed yng nghystadleuaeth Pentathlon ysgolion Caerdydd.

Llongyfarchiadau i Elin Rees (Blwyddyn 10) a ddaeth yn 1af a Rhodri Davies (Blwyddyn 10) a ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth glasurol ac i Elis Williams (Blwyddyn 8) a enillodd y gystadleuaeth Jazz unigol, yn yr Wyl i Gerddorion Ifanc De Morgannwg yn Ysgol y Gadeirlan. Yn ogystal â hyn, fe enillodd Elin Rees y wobwr am fod yn ddisgybl gorau'r Wyl. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Daeth Menna Elfyn i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar a lluniodd disgyblion Blwyddyn 7 gerddi yn ei chwmmi. Bydd cerddi Cadi Matthews a Tanwen Rolph, Lleucu Devitt-Jones a Rhiannon Baker, Hannah Stracy a Sara Thomas, Lloyd Bowen a Steffan Wheadon, Rhys Jones, Rhys Cook a Meurig Golding, Michael Stephens a Joshua Sheehan yn cael eu cynnwys yn y gyfrol 'Caneri Pinc ar Dywod Euraid', Menna Elfyn. Bydd rhai ohonynt yn darllen eu cerddi ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

## Llongyfarchiadau

- i Sioned Angharad Wyn, ar ennill ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth.

## Diwrnod Mabolgampau

Cynhaliwyd diwrnod mabolgampau'r ysgol eleni ar ddydd Gwener, Mai 16eg yn Stadiwm Leckwith. Er ei bod yn bwrw glaw'n drwm iawn drwy'r dydd cafwyd diwrnod i'w gofio! Fe wnaeth yr holl gystadleuwyr eu gorau ym mhob cystadleuaeth. Llws Nantlais oedd yn fuddugol a chafodd pencampwyr unigol y dydd eu gwobrwyo - Stewart Kerry a Sophia Watt o Flwyddyn 7, Elliot Wilson ac Erin Dafydd o Flwyddyn 8, Rhys Thomas a Laura Walbeoff o Flwyddyn 9 a Matthew Williams a Gwennan Harries o Flwyddyn 10. Llongyfarchiadau mawr iddynt.





# Bro Morgannwg

## TAITH I YPRES

Yn ddiweddar bu disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ar daith gyda'r adrannau Hanes a Chymraeg i Wlad Belg, yn seiliedig ar waith mae'r disgyblion yn ei wneud ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Cawsom ein tywys o gwmpas y claddfeydd gan hanesydd, Mr Gordon Turberville, i roi gwybodaeth i ni ynglyn a dulliau rhyfela a ffeithiau eraill.



Aethom i amgueddfa Sanctuary Wood, lle cawsom weld y ffosydd bu rhaid i'r milwyr ymladd ynddynt, ac arfau ac eitemau eraill a ddarganfuwyd ar ôl i'r rhyfel orffen. Yn ogystal, buom mewn tair mynwent. Yn gyntaf aethom i fynwent Tynecot lle mae wal yn ymestyn o un ochr y gladdfa i'r ochr arall, gydag enwau milwyr arni a gollodd eu bywydau yn y rhyfel, ond na chafodd eu cyrrff eu darganfod.

Yna buom yn ymweld â Mynwent Langemarck, claddfa ar gyfer yr Almaenwyr, ac 'Artillery Wood', ble mae'r bardd Cymreig Hedd Wyn wedi'i gladdu. Mae yna hefyd blat ar ochr yr heol, yn dangos y postyn Cymorth Cyntaf sydd wedi'i ysgrifennu yn Saesneg, Cymraeg ac yn Fflemmaidd. Mae nifer o feddau milwyr eraill o Gymru yno, a "Cymru Am Byth" arnynt.

Roedd hwn yn ddiwrnod a wnaeth argraff gref arnom i gyd, yn enwedig ar gyfnod lle mae'r byd unwaith eto wedi bod yn dilyn hanes rhyfel cyfredol yn Irac.

Huw Lewis 9G

## STATWS BUDDSODDWYR MEWN POBL

Mae ymrwymiad Ysgol Gyfun Bro Morgannwg tuag at ddatblygiad ei staff bellach wedi derbyn cydnabyddiaeth swyddogol. Enillodd yr ysgol wobwr Buddsoddwr Mewn Pobl, un o'r ychydig iawn o ysgolion yn y sir sydd wedi ennill y statws yma.

Dim ond sefydliadau sy'n dangos rhagoriaeth wrth ddatblygu'r bobl sy'n gweithio ynddynt sy'n derbyn y wobwr, ac mae'n garreg filltir bwysig yn natblygiad yr ysgol.

Yn ôl yr adroddiad annibynnol a baratowyd fel rhan o'r broses Buddsoddwr Mewn Pobl: "Daeth nifer o gryfderau ac arferion da i'r amlwg yn ystod yr asesiad, yn cynnwys:

· Sgiliau arweinyddiaeth rhagorol wedi eu portreadu gan y Pennaeth a'i Dim Rheoli

- Gweithlu ymroddedig a selog yn benderfynol o sefydlu enw da i'r ysgol
- Ymroddiad dwfn i ddatblygu staff ar bob lefel er mwyn cynnal a gwella safonau dysgu ac addysgu".

Wrth dderbyn plac Buddsoddwyr Mewn Pobl oddi wrth Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, Cyng. Jeff James, dywedodd Geraint Evans, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ei fod yn llongyfarch y pennaeth Dr Dylan Jones a'r holl staff ar yr anrhydedd diweddaraf. "Nododd yr arolygwr Buddsoddwyr Mewn Pobl yn ei adroddiad ei bod yn amlwg fod yr ysgol wedi ei hymroddi'n llawn i ddatblygu a hyfforddi pob aelod o'r staff. Mae'r gydnabyddiaeth yma o statws Buddsoddwyr Mewn Pobl, yn dilyn mor fuan ar sodlau adroddiad arolwg ardderchog gan Estyn, yn dystiolaeth bellach fod ein gweledigaeth ar gyfer ysgol lle mae pawb - yn ddisgyblion ac athrawon fel ei gilydd - yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn potensial yn prysur cael ei gwireddu".

Dywedodd Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, Cyng. Jeffrey James, ei fod yn hynod falch o lwyddiant yr ysgol. "Mae Ysgol Bro Morgannwg yn mynd o nerth i nerth. Pob clod i'r ysgol ac i waith caled pawb a fu'n rhan o'r broses am ennill statws Buddsoddwr Mewn Pobl."

## CAMPAU CAMPUS

Mae timoedd Ysgol Bro Morgannwg yn parhau i wneud yn arbennig o dda ar y meysydd chwarae. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol dros y ddau dymor diwethaf a diolch i'r disgyblion am eu gwaith caled, i'r athrawon a'r rhieni am eu cefnogaeth, ac yn enwedig i Mr Richard Chidley a Miss Mari Williams am eu harweiniad.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r tymor:

**Pêl-droed:** Bl. 8 wedi ennill cynghrair Caerydd a'r Fro.

Tîm merched yn wyth olaf Cwpan Cymru dan 14.

**Hoci:** Bl. 9 yn ail ym mhencampwriaeth Cymru dan 14. Bl. 8 yn ail yn y sir.

**Pêl-rwyd:** Bl. 8 yn bencampwyr cenedlaethol yr Urdd, ac yn drydydd yn y sir.

**Pêl-fasged:** Rownd derfynol cwpan y sir.

**Traws-gwlad:** Timoedd Bl. 8 a 9 yn ail yn y gynghrair.



Tim hoci Blwyddyn 9



# Glantaf

## Pen-blwydd Glantaf!

### Rhyddhau Cryno Ddisg!

Fel rhan o ddathliadau pen-blwydd Glantaf yn 25 mlwydd oed, mae ddisgyblion a staff yr adran Gerddoriaeth wedi bod yn ddiwyd iawn yn recordio nifer o eitemau amrywiol sydd wedi bod yn rhan annatod o'r repertoire ni fel ysgol yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Mae gwledd yn eich aros!

Pleser oedd gweld tua 150 o ddisgyblion blwyddyn 7 i 13 yn ymuno yn hwyl y canu. Roedd eu brwdfrydedd a'u hegni'n heintus.

Fe glywch ganeuon fel 'O nefol addfwyn Oen', 'Hafan Gobaith', 'Tangnefeddwyr' a 'Bytholwyrdd' gan gôr cymysg yr ysgol i gyfeiliant band talentog. Mae yna gyflwyniadau gan bartïon merched a bechgyn. Un o'r uchafbwyntiau yw cyfraniad y band jazz ac mae perfformiad y band *ensemble* llinynol a'r organ yn wirioneddol broffesiynol. Diolchwn i swyddogion Capel y Tabernacl am eu cymorth.

Fe fydd y CD 'CORON GWLAD EI MAMIAITH' allan yn fuan. Pris yn y siopau yw £12.98 a £8.50 am dâp. Mae'r ysgol yn gwerthu'r CD am £10.50 a'r tâp am £7.50. Os archebwch cyn 20 Gorffennaf cewch y CD am £9.99 a'r tâp am £6.99! Cysylltwch â'r ysgol ar 02920 333090 a mynnwch eich copi!

Diolch i holl ddisgyblion a staff yr adran Gerddoriaeth am eu gwaith. Diolch hefyd i gwmni Sain am eu cefnogaeth.



## FFAIR HAF GLANTAF

Dydd Sadwrn, 28 Mehefin 2003

Unwaith eto eleni mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Glantaf yn trefnu ffair haf yn yr ysgol.

Arwahan i'r stondinau di-ri, trefniwyd cystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed i ddisgyblion blwyddyn 6 ein hysgolion cynradd.

Dewch yn llw, rhwng hanner dydd a thri

Pris Mynediad - 50c

## PRIF SWYDDOGION

Llongyfarchiadau i Luke Pearce a Hannah Daniel ar gael eu hethol yn brif swyddogion. Daniel Hefin ac Eilir Evans fydd y dirprwyon.

## CYMDEITHAS CYN-DDISGYBLION GLANTAF

Chwarter canrif ers agor drysau Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am y tro cyntaf mae cymdeithas arbennig wedi cael ei sefydlu ar gyfer cyn-ddisgyblion. Yn ystod misoedd y gaeaf daeth criw o gyn-ddisgyblion ynghyd ar ol i nifer o bobl ddangos diddordeb mewn cymdeithas o'r fath yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2002.

Nod y gymdeithas yw dod a chyn-ddisgyblion ysgol gyfun Gymraeg gynta'r brifddinas at ei gilydd mewn amrywiol weithgareddau.

Y cyntaf o'r rhain fydd dathliad i nodi pen-blwydd yr ysgol yn 25 oed yn ddiweddarach eleni. Cynhelir noson yng Nghlwb Criced Morgannwg, Gerddi Soffia, Caerdydd ar nos Sadwrn Hydref 25ain 2003. Dewch i ddathlu a rhannu atgofion!

Pris y tocynnau yw £15 (neu £20 yn cynnwys cyfraniad at y gymdeithas) Os hoffech archebu tocynnau yna anfonwch sic o £15/£20 yn daladwy i Cymdeithas Cyn-ddisgyblion Glantaf at:

Y Trysorydd, 54 Angus Street, Y Rhath, Caerdydd CF24 3LY

Am fanylion pellach am y gymdeithas neu os hoffech helpu ar y pwyllgor cysylltwch a Non Jones 07790 075306 nonjones@yahoo.com Sian E. Thomas 029 20 485043

Eleri Morgan 07860 254106 eleri\_morgan\_2000@yahoo.co.uk



## YSGOLORIAETH

Llongyfarchiadau i Carys Osborne ac Emyr Jones ar ennill ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth.



## Mwy o Ddisgyblion dawnus

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp o flwyddyn 12 sydd wedi cymryd rhan yng Nghynllun Addysg Peirianeg yng Nghymru wedi bod yn cyd-weithio gyda'r adran Beirianeg yn y BBC o dan arweiniad Mr Wyn Jones a Mr Dave Williams.

Roeddent wedi cael briff i ymchwilio a chynllunio system gyfathrebu rhwng gorsafoedd darlledu ar draws Cymru. Bu'r tîm yn gweithio'n galed i lwyddo i ddarparu y broblem mewn ffordd effeithiol.

Cawsant y cyfle i arddangos eu gwaith mewn arddangosfa yn y *Celtic Manor* yng Nghasnewydd. Roeddent hefyd yn gorfod cyflwyno'r prosiect i banel o aseswyr yn ystod y dydd. Cafwyd llwyddiant mawr trwy ennill £500 am y defnydd gorau o Dechnoleg Gwybodaeth o fewn y prosiect.

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm, sef Alun Shepard, Robert McGhee, Dafydd Franklin, Rhodri Howells, Ceri Herbert a Rhian Owens am ddod a chlod mawr i'r Adran Dechnoleg ac i'r ysgol. Diolch hefyd i Miss Catrin Lewis a Mr Meirion Powell am arwain y grŵp.

## Ysgol Melin Gruffydd

### Hwyl yn codi arian at achos da

Yn ddiweddar, fe gafodd disgyblion blwyddyn 5 brynhawn hwylus dros ben yn codi arian i *Wateraid*, ymgyrch *Blue Peter* i helpu pobl Tanzania i gael dwr glân.

Soniodd Mrs Williams wrthym yn y gwasanaeth un bore am sefyllfa ddifrifol pobl Tanzania. O fewn dim amser, roedd naw o ferched y dosbarth yn llawn cyffro ac yn dechrau trafod syniadau.

Y penderfyniad oedd i bawb ddod ag un neu ddau o bethau nad oedden nhw eisiau bellach a'u gwerthu am bris rhesymol i'w ffrindiau. Wrth lwc, roedd pawb yn cytuno â'r syniad ac yn barod i helpu.

Pan ddaeth hi'n amser agor, dyna le oedd yn ein dosbarth ni! Roedd llyfrau a theganau, losin a chacennau, cryno ddisgiau a hyd yn oed twba lwcus yno. Buon yn gwerthu ac yn prynu nes ein bod yn chwys diferu, ac wedyn wrth gwrs, roedd yn rhaid tacluso a rhoi'r celfi yn ôl yn eu lle.

Diolch mai prynhawn Gwener oedd hi! Roedd pawb wedi blino'n lân, ond yn teimlo'n falch iawn hefyd am ein bod wedi codi £150 i helpu rhywun sydd mewn angen yn y byd.



Dyma ni yn barod i ddechrau'r hwyl! O'r chwith i'r dde: Christy, Adrienne, Hannah, Megan, Rebecca, Cadi, Elan, Hannah, Llinos

## Ysgol Mynydd Bychan

### Llongyfarchiadau

Braf oedd clywed am ddyweddiad aelod o staff yr ysgol, sef Mr Dylan Evans, athro blwyddyn 6. Bydd yntau a'i ddyweddi, Miss Emma Rees yn priodi cyn y Nadolig. Dymuniadau da i'r ddau gyda'r paratoi, (y TASAU a'r briodas!)

### Codi Arian

Diolch i Jac Hopkins, disgybl ym mlwyddyn 5, am drefnu arwerthiant hen bethau tuag at elusen *Blue Peter*. Casglwyd yn agos i £200 tuag at yr achos da.

### Y Cwis Llyfrau

Bu cynrychiolwyr o flwyddyn 3 a 4 yr ysgol yn llwyddianus yng nghystadlaethau y cwis llyfrau eleni gan ennill marciau uchel am drafod cynnwys dwy stori yn ogystal â pherfformio sgats i hysbysebu cyfrol o farddoniaeth. Edrychwn ymlaen yn fawr at fynd i Aberystwyth ar gyfer y rownd derfynnol.

### Ffarwelio a Chroesawu

Dymuna'r staff a'r disgyblion ddiolch o galon i Mrs Vikki Tudur a fu yn cyflenwi ym mlwyddyn 1 yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Mai Giles. Mae'r plant wedi elwa yn fawr o'i harweiniad cadarn. Cymerwn y cyfle hwn wedyn i groesawu Mrs Giles yn ôl i'r ysgol, gan ddymuno tymor hwylus iddi ym mlwyddyn 1.

## BARRY'N BEN

### Barry Morgan - Archegob Cymru



Llongyfarchiadau i'r Dr Barry Morgan, Esgob Llandaf ar gael ei ethol yn Archegob Cymru i olynu'r Dr Rowan Williams. Bu'n Archdeacon Meirionnydd, rheithor Cricieth ac Esgob Bangor cyn cael ei ethol yn Esgob Llandaf ym 1999. Mae'n awdur toreithiog ac ar hyn o bryd yn ysgrifennu llyfr ar farddoniaeth R S Thomas.

Mae'n aelod o nifer o gyrff cyhoeddus ac yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru ar Gyngor Eglwysy'r Byd. Mae'n briod â Hilary, sy'n gyfreithiwr yng Nghaerdydd ac mae ganddynt ddau o blant, Jonathan a Lucy. Dymunir yn dda iddo yn ei swydd newydd.

### Y Barri'n Ben

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed Y Barri ar fod yn bencampwyr Cyngrair Cymru a chipio Cwpan Cymru trwy guro Aberystwyth 5-1. Dyma'r seithfed tro iddyn nhw gipio'r gwpan.



### Y BOORE WAR?

Cododd y gêm ail gyfle fawr rhwng Caerdydd a Queens Park Rangers nyth cacwn i deulu'r Boores yn ddiweddar. Mae Gwilym, y mab hynaf yn gefnogwr brwd o dîm y brifddinas tra bo Alun yn cefnogi QPR.

Pob hwyl i Gaerdydd ac i Gwilym y tymor nesaf!

### Gwneud ei marc

Pan oedd Susan Roberts, Tongwynlais yn ei deugeiniau cynnar penderfynodd roi'r gorau i'w swydd fel athrawes yng Nghylch Meithrin Cymraeg Rhiwbina er mwyn mynd i'r coleg i astudio celf. Erbyn hyn mae hi wedi ennill gradd yn y pwnc ac yn gweithio i ennill MA mewn celfyddyd gain.

Mae hi'n fam i bump o blant a dysgodd Gymraeg ar ôl dod i fyw i Gymru o Ganada ugain mlynedd yn ôl.

Mae hi wedi arbenigo ar gerflunio ac yn ddiweddar cynhaliodd arddangosfa o'i gwaith yn Oriel Broadway.

### Gwneud ei farc

Yn ystod yr wythnosau nesaf fe fydd yr artist adnabyddus, Jonah Jones yn arddangos ei waith yn oriel Siop Lyfrau Hall's ym mhentref Llandaf. Yn dilyn ei arddangosfa lwyddianus yn Neuadd Dewi Sant y llynedd, dyma gyfle arall i weld gwaith un o artistiaid mwyaf arwyddocaol Cymru.

### Marciau llawn

Llongyfarchiadau i Angharad Price, enillydd y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Tŷ Ddewi y llynedd ar ennill anrhydedd arall yng Ngŵyl Lenyddol Y Gelli Gandryll pan ddewiswyd ei chyfrol yn Llyfr Cymraeg y Flwyddyn.



# Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd

Bu'n ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus i C.R.I.C.C.

Ar benwythnos y Pasg bu ein ffrindiau o Lydaw yn ymweld a ni. Cafodd y tim dan 14 fuddugoliaeth gyfforddus dros y gwrthwynebwyr o Brest. Ennill hefyd wnaeth y tim dan 12, diolch yn bennaf i allu a chyflymder Owain Actie, ar ôl hanner cyntaf cyfartal.

Ddechrau Mai, enillodd carfan dan 12 bob gem yn erbyn Cefn Coed, Cross Keys a Deri i ennill cystadleuaeth 10 bob ochr oedd yn rhan o Wyl a drefnwyd gan glwb Cefn Coed y Cymer ger Merthyr. Ychwanegwyd at falchder yr hyfforddwr wrth i'r garfan ennill Tlws "CHWARAE TEG" yr Wyl hefyd.

O fewn wythnos cynhaliwyd Gŵyl 7 bob ochr C.R.I.C.C. i ysgolion cynradd Cymraeg y cylch. Ysgol y Castell, Caerffili, ac Ysgol Bro Eirwg gyhaeddodd y ffeinal o'r chwe ysgol oedd yn cystadlu. Dangoswyd sgiliau unigol naturiol nifer o chwaraewyr yn enwedig yn y ddau dim oedd yn y rownd derfynol. Bro Eirwg yn awr yw'r unig ysgol sydd a'i henw ar y cwpan am yr ail dro!! Ar yr un noson 'roedd KEVIN MORGAN [cefnwr Cymru ac un o'r goreuon yn y byd!] yn wr gwadd yn ein Noson.

Wobrwyo ac yn cyflwyno tlysau i'r canlynol :-

Chwaraewr y flwyddyn.

- <8 Gabriel Davies [Melin Gruff]
- <9 Jake Conway [Myn Bych]
- <10 Rhys Patchell [Melin Gruff]
- <11 Jamie Bevan [Treganna]
- <12 Tomos W. Jones [Glantaf]

Tlws yr hyfforddwr.

- Hywel Davies [Y Wern]
- Andrew Broad [M. Gruff]
- Sion Mullane [Y Wern]
- Jay Moriarty [M. Gruff]
- Owain Actie [Glantaf]

Mwyaf Addawol -- Gabriel Davies.

Cynnydd Mwyaf -- Adam Lewis [Glantaf]

Bu pob carfan yn chwarae eleni o <8 hyd at <12 ond y tymor nesaf mae angen aelodau newydd yn enwedig <9 a <12. h.y. blwyddyn 4 a blwyddyn 7 yr ysgol ym mis Medi. Gobeithio y gwnaiff yr ysgolion Cymraeg annog y rhai sydd a diddordeb i ymuno â ni.



## Carfan dan 12 C.R.I.C.C.

Rhes gefn:

Jonathan Davies Ben Milton  
Remi Roberts Huw Holland  
Lewis Haynes Daniel Reed  
Tomos W. Jones

Rhes flaen:

Sion Hopkins Owain Actie  
Tomos Harries Ewan Williams  
James Maclean Adam Lewis

## Calendr y Dinesydd

(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd:  
<http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm>)

### Mawrth, 10 Mehefin

Darlith Goffa G. J. Williams, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan Dr Marged Heycock ar y testun 'Merched o'r Dwyrain a Dychymyg y Cymry 1000-1500' yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Saffle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m.

### Iau, 12 Mehefin

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd: 'Cyffwrdd â Chyffuriau' Sgwrs gan Iesyn Davies, yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.

### Sadwrn, 14 Mehefin

Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Gwibdaith ar y gamlas. Manylion pellach: 01446-732203.

### Sadwrn, 14 Mehefin

Cymdeithas Carnhuanawc: Taith gerdded o gwmpas Dyffryn Rhiangoll (Cwm-du/Tretwr), dan arweiniad Geoff Davies a Keith Bush. Yn gadael 47 Wingfield Rd., Yr Eglwys Newydd am 12.45 o'r gloch. Manylion pellach: [post@carnhuanawc.net.uk](mailto:post@carnhuanawc.net.uk) neu 029-2062-3275.

### Llun, 16 Mehefin

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyfarfod Blynnyddol, a sgwrs gan Mansel Jones, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

### Sadwrn, 21 Mehefin

Aduniad i holl gyn-fyfyrwyr Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m. yn Neuadd Aberdâr, Hool Corbett, Parc Cathays. Manylion pellach: 029-2087-4843; e-bost: [cymraeg@caerdydd.ac.uk](mailto:cymraeg@caerdydd.ac.uk).

### Iau, 3 Gorffennaf

Cymdeithas Golff y Ddinas: Cystadleuaeth Tlws: 'Yr Hwymos' ym Mryn-hill, Y Barri. Manylion pellach: Dafydd Hampson-Jones (Ffôn: 029-2039-4021; e-bost: [dhampson-jones@car-sheppards.co.uk](mailto:dhampson-jones@car-sheppards.co.uk)).

### Iau, 10 Gorffennaf

CYFARFOD BLYNNYDDOL Y DINESYDD. Cyfarfod cyhoeddus yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina, am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

### Llun, 21 Gorffennaf

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion pellach: 029-2069-2631.

Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn Jones, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: [JamesEW@caerdydd.ac.uk](mailto:JamesEW@caerdydd.ac.uk)).

## DEINTYDD

Gwasanaeth Iechyd (NHS) / Preifat  
yn dal i dderbyn cleifion newydd

**Osian Davies, BDS (Cymru)**

28 Heol y Santes Fair, Caerdydd  
(drws nesaf i McDonalds)

029 2037 1393

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?  
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddarau  
systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch



## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558 364**

## Mae pob cegin yn haeddu AGA



**popeth o ffedog i ffwrn!**

the **AGA** shop

81 Heol Caerffili, Caerdydd CF14 4AE

Ffôn: 029 20521277

Ffacs: 029 2052185

e-bost: Cardiff@Aga-Rayburn.co.uk

[www.s4c.co.uk](http://www.s4c.co.uk)

A P Ê L 2 0 0 3 A P P E A L



**S4C**

## HAFAN O OBAITH AR S4C

Rhaglenni a gweithgareddau arbennig i gefnogi gwaith y ddwy hosbis i blant yng Nghymru, Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith.

YN DECHRAU 15 MEHEFIN

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Gwifren Gwytywr S4C ar 0870 600 4141.

**S4C**